Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Treuliau Aelodau

5 Mehefin 2024

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 21 Mai, pan wnaethoch ofyn:

> *I was wondering if you could help me I wish to make a freedom of information request all of the Wales MPs and assembly members in Flintshire and Alan & Deeside Dylan including assembly member Jack sergeant I would like copies of their expenses and there pay for years 2021 to 2022 2022 to 2023 2023 to 20 24 if I could please have copies of all of their expenses write down to stationary expenses so I am asking for full transparency on this request if you could please help me acquire what I have requested it would be most appreciated thank you very much for your time and help*

Gweler ein hymateb isod.

Rwyf eisoes wedi eich hysbysu mai dim ond gwybodaeth ynghylch Aelodau o'r Senedd sydd gan y Senedd, ac nad oes ganddi wybodaeth am Aelodau Seneddol San Steffan. I wneud cais am wybodaeth ynghylch Aelodau Seneddol San Steffan, dylech anfon eich cais at y manylion cyswllt a roddir ar y wefan hon - How to make a request - UK Parliament

Mae **Bwrdd Taliadau Annibynnol** y Senedd yn gwneud penderfyniadau annibynnol ar lefel y taliadau a'r system o gymorth ariannol i Aelodau sy'n eu galluogi i gyflawni eu dyletswyddau fel Aelodau. Nodir y darpariaethau hyn yn y Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau a gyhoeddir gan y Bwrdd (neu'r 'Penderfyniad' fel y'i gelwir).

**Treuliau**


Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales


**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg | We welcome correspondence in both Welsh and English.**

Mae’r holl dreuliau y mae Aelodau o’r Senedd yn eu hawlio yn cael eu cyhoeddi ar y **System Cyhoeddi Lwfansau**.

I ddod o hyd i’r wybodaeth hon ar ein **system lwfansau**, dilynwch y cyfarwyddiadau hyn:

1. Dewiswch y blynyddoedd ariannol yr hoffech edrych arnynt.
2. I ddewis Aelod penodol, dewiswch ‘DEWIS AELOD’, ‘CHWILIO AELODAU’, ’Aelodau Presennol’, yna ‘Llyr Gruffydd’, ‘Mark Isherwood’, ‘Sam Rowlands’, ‘Carolyn Thomas’ a ‘Jack Sargeant’, ac yna cliciwch ar ‘Iawn’.
3. I ddewis math penodol o lwfans, dewiswch ‘DEWIS MATH O LWFANS’, yna’r math o lwfans, ac yna’r lwfans yr hoffech weld gwybodaeth amdano. (Os na fyddwch yn dewis math o lwfans, yna bydd pob hawliad ar gyfer y cyfnod hwnnw a’r Aelod hwnnw yn cael ei ddangos.)
4. Dewiswch ‘Chwilio’

Cyhoeddir y treuliau a gaiff eu hawlio ar ein system lwfansau **dri mis yn ddiweddarach** a bydd yn dangos yn y flwyddyn ariannol y mae’r gost yn gysylltiedig â hi. Os na allwch ddilyn y cyfarwyddiadau hyn, rhowch wybod i mi.

**Cyflogau**

Mae copïau wedi’u cyhoeddi o’r Penderfyniad, ar gyfer y blynyddoedd a nodir yn eich cais, ar gael drwy ddilyn y linc hwn: **Penderfyniad (bwrddtaliadau.cymru)**

Mae *Pennod 3. Tâl yr Aelodau* yn nodi’r tâl blynyddol sy’n daladwy i Aelodau o’r Senedd, ynghyd â chyflogau deiliad swyddi ychwanegol. Er enghraifft, os ydynt yn gadeirydd pwyllgor neu’n arweinydd grŵp gwleidyddol, dylid ychwanegu hynny at swm y cyflog.

I weld a oes gan Aelodau hawl i gyflog deiliad swydd ychwanegol, edrychwch ar eu bywgraffiad - **Dod o hyd i Aelod o’r Senedd**, ac o dan ‘*Gwybodaeth fanwl:*’ ac *‘Aelodaeth’*.

Gan fod y wybodaeth hon eisoes ar gael, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, sy’n eithrio gwybodaeth sydd ar gael yn rhesymol drwy ddulliau eraill.

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Senedd Cymru**

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

**Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** neu drwy ysgrifennu at

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF